

Adolygiad cyflym o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n Gweithio mewn Gwasanaethau Newyddenedigol

Gorffennaf 2024
CRYNODEB GWEITHREDOL

Beth yw Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dal fyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon gan gadw sylw at ragfarn ar yr un pryd.

Ar gyfer pwy mae'r Adolygiad Cyflym hwn?

Awgrymwyd cwestiwn yr adolygiad gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Bwriad yr adolygiad hwn yw hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am staffio mewn gwasanaethau newyddenedigol.

Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Nod yr adolygiad hwn oedd mesur effaith gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (AHPs) sydd wedi'u hymgorffori mewn gwasanaethau newyddenedigol ar ganlyniadau trwy ofyn y cwestiynau adolygu canlynol:

- C1. Beth yw effeithiolrwydd gwasanaethau newyddenedigol gyda gweithwyr proffesiynol perthynol o gymharu â gwasanaethau newyddenedigol heb weithwyr proffesiynol perthynol?
- C2. Beth yw effeithiolrwydd ymyriadau cynnar a ddarperir gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn unedau newyddenedigol?

Canlyniadau

Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth

- Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth oedd ar gael hyd at fis Mawrth 2024. Roedd yr astudiaethau gafodd eu cynnwys wedi'u cyhoeddi rhwng 2016 a 2024.

Maint y sylfaen dystiolaeth ar gyfer C1

- Nodwyd 7 astudiaeth: 6 astudiaethau cyn-ar ôl ac 1 astudiaeth garfan gymharol.
- Cynhaliwyd yr astudiaethau yng Nghanada (n = 2), UDA (n = 2), Awstralia (n = 1), De Korea (n = 1) a Japan (n = 1).
- Roedd 1 astudiaeth yn cymharu cyn ac ar ôl gweithredu uned gofal dwys newyddenedigol (NICU) gyda staff ffisiotherapi. Cymharodd yr astudiaethau eraill unedau newyddenedigol gyda thimau amlddisgyblaethol a hebddynt, gan gynnwys AHPs.

Canfyddiadau allweddol a sicrwydd o'r dystiolaeth ar gyfer C1

- Mae tystiolaeth sicrwydd isel yn awgrymu y gallai AHPs wedi'u hymgorffori mewn gwasanaethau newyddenedigol wella gallu echddygol gros ac arwain at fwydo geneuol cynharach.
- Mae canlyniadau o astudiaethau cyn-ar ôl a charfan o dimau cymorth maeth amlddisgyblaethol mewn unedau newyddenedigol yn rhy anghyson i ddod i gasgliadau.

Maint y sylfaen dystiolaeth ar gyfer C2

- Nodwyd 5 astudiaeth: 5 adolygiad systematig gan gynnwys 57 o hapdreialon dan reolaeth unigryw (RCTs)
- Cynhaliwyd yr astudiaethau yn UDA (n = 23), Iran (n = 5), Awstralia (n = 5), Brasil (n = 4), India (n = 3), Ffrainc (n = 3), y DU (n = 3), Canada (n = 3), Sbaen (n = 2), Y Swistir (n = 1), Yr Iseldiroedd (n = 1), De Korea (n = 1), Yr Eidal (n = 1), Denmarc (n = 1) a Taiwan (n = 1).
- Ymchwiliodd yr astudiaethau ymyriadau cynnar yn weithredol gan gynnwys rhieni, ysgogiad geneuol, ysgogiad amlsynhwyrdd, ac ymyriadau cynnar sy'n parhau ar ôl rhyddhau.

Canfyddiadau allweddol a sicrwydd o'r dystiolaeth ar gyfer C2

- Mae tystiolaeth sicrwydd cymedrol yn awgrymu bod ymyriadau cynnar a ddarperir gan AHPs mewn unedau newyddenedigol yn gysylltiedig â hyd arhosiad byrrach, gwell sensitifrwydd rhieni a bwydo geneuol cyflymach.
- Mae sicrwydd cymedrol bod yr ymyriadau hyn yn gysylltiedig â gwelliannau bach mewn gallu gwybyddol cyffredinol a gallu echdygol manwl cyffredinol mewn babandod o'i gymharu â gofal safonol.
- Mae tystiolaeth sicrwydd isel gan RCTs nad yw ymyriadau cynnar a ddarperir gan AHPs yn effeithio ar straen rhieni yn y tymor byr.

Goblygiadau Ymchwil a Bylchau Tystiolaeth

- Ychydig iawn o dystiolaeth uniongyrchol berthnasol oedd ar AHPs wedi'u hymgorffori mewn gwasanaethau newyddenedigol. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn ymwneud â gwaith tîm aml-ddisgyblaethol neu ymyriadau cynnar a ddarparwyd gan AHPs.
- Ychydig o dreialon ymyrraeth gynnar oedd o'r DU, gan arwain at ansicrwydd ynghylch argaeledd a chymhwysedd ymyriadau mewn lleoliadau yn y DU.
- Mae angen ymchwil bellach yn y DU i ddeall yn well y ffordd orau o integreiddio gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn gwasanaethau newyddenedigol.

Goblygiadau Polisi ac Ymarfer

- Mae cyrff proffesiynol AHP a Cholegau Brenhinol wedi cyhoeddi argymhellion o ran nifer y staff AHP cyfwerth ag amser llawn (WTE) o bob math sydd eu hangen ar gyfer pob lefel o uned newyddenedigol.
- Mae'r adolygiad cyflym hwn yn cefnogi'r syniad bod cyfranogiad unedau newyddenedigol AHPs yn debygol o wella canlyniadau, ond nid yw'n nodi'r union nifer o staff sydd eu hangen.
- Mae gweithredu argymhellion cyrff proffesiynol AHP yn unedau newyddenedigol Cymru yn debygol o fod yn newid mawr mewn ymarfer gan nad oes gan unrhyw uned newyddenedigol o Gymru y nifer WTE o staff AHP ar hyn o bryd.

Ystyriaethau economaidd

- Nid oes tystiolaeth gyhoeddedig am gost AHPs sy'n gweithio o fewn unedau newyddenedigol.
- Mae amrywioldeb amlwg wrth adrodd amcangyfrifon cost ar gyfer unedau gofal newyddenedigol yn y DU, gan ei gwneud yn anodd gwerthuso goblygiadau costau mabwysiadu argymhellion AHP.
- Gallai gwerthusiadau economaidd dilynol archwilio'r Effaith ar y Gyllideb i'r GIG o gynyddu presenoldeb AHP mewn unedau newydd-enedigol i gyd-fynd ag argymhellion gan gyrrff proffesiynol AHP a'r Colegau Brenhinol.

Aseswyd sicrwydd tystiolaeth gan ddefnyddio'r dull GRADE (Graddio Argymhelliad, Asesu, Datblygu a Gwerthuso) (<https://www.gradeworkinggroup.org/>)